# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**02.10.26**




## Gair gan Miss Hughes – Miss Hughes' Greeting

Roedd yn bleser mawr croesawu Comisiynydd Plant Cymru i'r ysgol yr wythnos hon. Cynhaliodd wasanaeth arbennig i'r disgyblion cyn treulio amser gyda'r Cyngor Ysgol mewn sesiwn holi ac ateb ddifyr. Cafwyd cwestiynau gwych a thrafodaethau ystyrlon, ac roedd y disgyblion yn llysgenhadon arbennig i'n hysgol. A phwy fyddai wedi dyfalu mai cnau coco yw hoff flas hufen iâ'r Comisiynydd?

Bu merched Blwyddyn 6 yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth bêl-droed yr Urdd yr wythnos hon. Dangoswyd gwydnwch, dyfalbarhad ac ysbryd tîm arbennig drwy gydol y dydd, wrth fwynhau'r gemau a chefnogi ei gilydd. Llongyfarchiadau i chi gyd am eich hymagwedd gadarnhaol a'ch ymddygiad rhagorol.

Mae aelodau newydd ein Cyngor Ysgol bellach wedi'u hethol, ac rydym yn edrych ymlaen at weld eu syniadau a'u blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Fel rhan o'r etholiadau, buodd yn creu maniffestos arbennig er mwyn rhannu eu gweledigaeth a'r newidiadau hoffent eu gweld yn yr ysgol. Da iawn chi am fod mor angerddol ac ysbrydoledig!

Rydym hefyd yn gyffrous i gyhoeddi y bydd gwaith ar safle'r ysgol yn dechrau wythnos nesaf i adeiladu rhywbeth arbennig i'n disgyblion. Yn ystod y cyfnod hwn, gofynnwn yn garedig i rieni a gwarchodwyr ddilyn y llwybrau dynodedig a fydd wedi'u gosod wrth gyrraedd a gadael yr ysgol er mwyn sicrhau diogelwch pawb. Diolch yn fawr i'r CRhaA am noddi'r adnodd newydd!

Nodyn pwysig: Cofiwch fod Diwrnod HMS ar ddydd Llun, 5 Hydref, ac felly ni fydd disgyblion yn yr ysgol ar y diwrnod hwnnw.

Diolch i bawb am eich cefnogaeth barhaus, a mwynhewch y penwythnos! Obeithio bydd yr haul yn parhau i wenu! 🌞

✳ ✳ ✳ ✳ ✳ ✳

It was a pleasure to welcome the Children's Commissioner for Wales to the school this week. She led a special assembly for the pupils before spending time with the School Council during an engaging question-and-answer session. There were some excellent questions and meaningful discussions, and our pupils were outstanding ambassadors for the school. And who would have guessed that the Commissioner's favourite ice cream flavour is coconut?

Our Year 6 girls proudly represented the school at the Urdd football tournament this week. They demonstrated resilience, determination and excellent team spirit throughout the day, while enjoying the matches and supporting one another. Congratulations to all of you for your positive attitude and exemplary behaviour.

The new members of our School Council have now been elected, and we are looking forward to hearing their ideas and priorities for the year ahead. As part of the election process, they created special manifestos to share their vision and the changes they would like to see in the school. Well done to all of you for being so passionate and inspiring!

We're also excited to announce that work on the school site will begin next week to build something special for our pupils. During this period, we kindly ask parents and carers to follow the designated routes that will be in place when arriving at and leaving the school to help ensure everyone's safety. Thank you to the PTA for funding this project!

Important reminder: Please remember that there is an INSET Day on Monday, 5th October, and therefore pupils will not be in school on that day.

Thank you all for your continued support, and we hope you have a wonderful weekend. Let's hope the sunshine continues to smile upon us! 😊
gorau! ❤

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**05.10.26 – 09.10.26**
Wythnos Seiclo i'r Ysgol
Cycle to school week

Cycle to School Week

**Llun / Monday 05.10.26**
Diwrnod HMS
*INSET Day*

**08.10.26**
Lluniau Unifol Colorfoto
*Colorfoto Individual Photos*

**13.10.26 & 14.10.26**
Nosweithiau Rhieni
Parents' Evenings

**14.10.26 – 16.10.26**
Year 6 (2E) Llangrannog
Taith Breswyl / Residential

**Iau / Thursday 15.10.26**
Diwrnod Su'mae Shw'mae

**Gwener/Friday 16.10.26**
Cerdyn Coch i Hiliaeth
Show Red for Racism
Gwisgo Coch / Wear Red

**Gwener/Friday 23.10.26**
Gwasanaeth Dosbarth 5C

**Gwener/Friday 04.12.26**
Gwasanaeth y Llan (Bl 4)
Y Llan Memorial (Year 4)

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our website's homepage.*

## Bws Beic

Dyddiadau Bws Beic y Tymor hwn:

9 Hydref
23 Hydref
13 Tachwedd
27 Tachwedd
11 Rhagfyr

Cofiwch lenwi'r ffurflen!

**NODWCH**: Mae'n wythnos seiclo i'r ysgol wythnos nesaf. Dangoswch eich cefnogaeth wrth seiclo i'r ysgol yn ddyddiol.

Bws Beics: Croeso i aelodau newydd bob amser!

*Bike Bus: New members always welcome!*

## Bike Bus

This term's bike bus dates:

9 October
23 October
13 November
27 November
11 December

Don't forget to fill out the form!

PLEASE NOTE: It is cycle to school week next week. Show your support by cycling daily to school.





## Clybiau ar ôl ysgol

Bydd staff yn cynnig y clybiau canlynol ar ôl ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 3-6. Diolch i'r staff i gyd am wirfoddoli.

**Dydd Mercher – Meddylgarwch**
**Dydd Iau – Pêl-droed**

Clwb cynta'r hanner tymor – 16.09.26
Clwb ola'r tymor hanner – 22.10.26

**DS - Ni fydd clybiau ar 14.10.26 na 15.10.26**

## After school clubs

Staff offer the following after school clubs to pupils in Years 3-6. Thank you to all the staff who volunteer.

**Wednesday – Mindfulness**
**Thursday – Football**

First club of the half term – 16.09.26
Final club of the half term – 22.10.26

**NB – No clubs on 14.10.26 and 15.10.26**

Llongyfarchiadau i'r unigolion sydd wedi eu hethol i fod ar y Cyngor Ysgol!

Congratulations to the individuals that have been elected to be on the School Council!







## Diolch i Gomisiynydd Plant Cymru!

## Thank you to the Children's Commissioner for Wales!






**Sesiwn Wybodaeth i Rieni a Gofalwyr**

Hoffem dynnu eich sylw at sesiwn wybodaeth am ddim a gynhelir gan **ND Community Connectors**, gyda chefnogaeth **Y Brifysgol Agored Cymru**. Mae'r sesiwn wedi'i hanelu at rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc sydd ar restr aros y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol neu sydd wedi derbyn diagnosis o Awtistiaeth neu ADHD.

Bydd cyfle i gael gwybodaeth a chyngor gan wasanaethau a sefydliadau lleol sy'n cynnig cefnogaeth i deuluoedd cyn ac ar ôl diagnosis.

📅 **Dyddiad:** Dydd Llun, 19 Hydref
🕙 **Amser:** 10:00yb - 11:30yb
📍 **Lleoliad:** Glenwood Church & Wellbeing Space, Llanedeyrn

Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle, defnyddiwch y cod QR ar yr hysbyseb.

**Information Session for Parents and Carers**

We would like to draw your attention to a free information session being hosted by **ND Community Connectors**, with support from **The Open University in Wales**. The session is aimed at parents and carers of children and young people who are on the Neurodevelopmental Service waiting list or who have received a diagnosis of Autism or ADHD.

The event will provide an opportunity to access information, advice and support from local services and organisations that support families both before and after diagnosis.

📅 **Date:** Monday, 19th October
🕙 **Time:** 10:00am - 11:30am
📍 **Location:** Glenwood Church & Wellbeing Space, Llanedeyrn

For more information or to book a place, please use the QR code on the poster.






**Sesiwn Gymorth: Ymosodedd gan Blentyn tuag at Riant**

Hoffem rannu gwybodaeth am sesiwn gymorth am ddim a ddarperir gan **Coram Family Lives** ac a gynhelir gan **ND Community Connectors CIC.**

Mae'r sesiwn wedi'i chynllunio ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n profi ymddygiad ymosodol neu drais gan blentyn neu berson ifanc. Ei nod yw darparu lle diogel a chefnogol i rannu profiadau, trafod ymddygiadau heriol, ac archwilio strategaethau ymarferol ar gyfer ymdopi a thawelu sefyllfaoedd.

📅 **Dyddiad:** Dydd Mawrth, 3ydd Tachwedd 2026
🕙 **Amser:** 10:00yb – 11:30yb
📍 **Lleoliad:** ASDA Bae Caerdydd, Ferry Road, Caerdydd, CF11 0JR

Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle, defnyddiwch y cod QR ar yr hysbyseb.

**Child to Parent Aggression Support Session**

We would like to share information about a free support session delivered by **Coram Family Lives** and hosted by **ND Community Connectors CIC**.

The session is designed for parents and carers who are experiencing aggression or violence from a child or teenager. It aims to provide a safe and supportive space to discuss challenging behaviours, share experiences, and explore practical coping and de-escalation strategies.

📅 **Date:** Tuesday, 3rd November 2026
🕙 **Time:** 10:00am – 11:30am
📍 **Location:** ASDA Cardiff Bay, Ferry Road, Cardiff, CF11 0JR

For more information or to book a place, please use the QR code on the poster.

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week

Hawl y Mis - Mis Hydref

Right of the month - October










### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Miss Alaw Hughes a Mrs Wendy Owen. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

### Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Miss Alaw Hughs and Mrs Wendy Owen. You can call the school at any time to discuss safeguarding.

# Urdd

## COGURDD

Cofiwch y bydd **Cogurdd** yn cael ei gynnal ar gyfer **pob disgybl Blwyddyn 4 i 6** ddydd **Mercher, 7 Hydref**.

Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion sicrhau eu bod yn dod â'r **holl gynhwysion ac adnoddau angenrheidiol** gyda nhw ar y diwrnod.

Pob lwc i bawb sy'n cymryd rhan! 🍳 👩‍🍳 👨‍🍳

## COGURDD

A reminder that **Cogurdd** will take place for **all Year 4 to Year 6 pupils** on **Wednesday, 7th October**.

Please ensure that pupils bring **all the necessary ingredients and equipment** with them on the day.

Good luck to everyone taking part! 🍳 👩‍🍳 👨‍🍳

## POBURDD

Cofiwch y bydd **Popurdd** yn cael ei gynnal ar gyfer **pob disgybl Blwyddyn 4 i 6** ddydd **Mercher, 7 Hydref**.

Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion **ddod â'u pobi i'r ysgol ar y diwrnod** er mwyn eu beirniadu. Sicrhewch fod y pobi wedi'i baratoi a'i gyflwyno'n barod ar gyfer y gystadleuaeth.

Edrychwn ymlaen at weld eich creadigaethau bendigedig. Pob lwc i bawb sy'n cymryd rhan!
🧁 🍰 👩‍🍳 👨‍🍳

## POBURDD

A reminder that **Popurdd** will take place for **all Year 4 to Year 6 pupils** on **Wednesday, 7th October**.

Please ensure that pupils **bring their completed bakes into school on the day**, along with any equipment required for presentation.

We look forward to seeing all of your wonderful creations. Good luck to everyone taking part!
🧁 🍰 👩‍🍳 👨‍🍳

# 'Darllen gyda'ch plentyn'

# 'Reading with your child

menter caerdydd

CARDIFF
CAERDYDD

**An English presentation for parents on how to develop your child's reading skills.**

**Cyflwyniad, yn Saesneg, i rieni ar sut i wrando ar a datblygu sgiliau darllen eich plentyn.**

**The session will focus on the first steps of reading, 'Tric a Chlic' phonics, developing comprehension skills; songs and activities to expand vocabulary.**





## Ysgol Gwaelod y Garth
## Dydd Llun/Monday
## 2/11/26 5:00pm



Rhif Elusen / Charity Number: 1098606
Rhif Cwmni / Company Number: 4576565

# RHOWCH HWB I SGILIAU NOFIO'CH PLENTYN Y GWYLIAU HYN

# BOOST YOUR CHILD'S SWIMMING THIS HOLIDAY

Sganiwch i gadw lle
Scan to book

Dydd Llun 26ain - Dydd Gwener 30ain Hydref

14:00 - 14:30 - Sylfaenol - Dechreuwyr
14:30 - 15:00 - Sylfaenol - Dechreuwyr

£23.50 Am yr wythnos
@ Canolfan Hamdden Tyllgoed

Monday 26th - Friday 30th October

14:00 - 14:30 - Foundation - Beginner
14:30 - 15:00 - Foundation - Beginner

£23.50 for the week
@ Fairwater Leisure Centre







CARDIFF
CAERDYDD

BETTER

Mae Better yn nod masnach cofrestredig ac yn enw masnachu GLL (Greenwich Leisure Limited), menter gymdeithasol elusennol a chymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cydweithfeydd a Budd Cymunedol a Chymdeithasau 2014 rhif cofrestru 27793R. Swyddfa gofrestredig: Middlegate House, The Royal Arsenal, Llundain, SE18 6SX. Rhif Elusen Cyllid Gwladol: XR43398. Better is a registered trademark and trading name of GLL (Greenwich Leisure Limited), a charitable social enterprise and registered society under the Co-operative & Community Benefit & Societies Act 2014 registration no. 27793R. Registered office: Middlegate House, The Royal Arsenal, London, SE18 6SX. Inland Revenue Charity no: XR43398.